**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**CHWEFROR 19eg 2025 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), John Harris (JH), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ), Einir Williams (EW)

**1.4** Absennol: Euros Williams (EUW)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

MGD gydag eitem 5.4.

## 3 COFNODION IONAWR 29AIN 2025 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan JR ac eiliwyd gan MGD.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Mae CWG wedi cysylltu gyda Steve Trow yn ystod y mis ynglŷn â phaentio tu mewn i'r arhosfa bws. Dywedodd nad oedd yn gwybod dim am unrhyw fwriad ganddyn nhw i baentio'r toiledau ac mae wedi pasio'r mater ymlaen i gyd-weithiwr ac mae CWG yn aros i glywed yn ôl ganddo. Dywedodd JR fod angen paentio'r arhosfa bws arall a bydd yn gofyn i Mark Davies os oes ganddo baent sbâr. Gofynnodd JH am beth sy'n digwydd gyda'r tir o gwmpas y cae bob tywydd ac atebodd DR ei bod yn dal i aros i gael y papurau i ddangos perchnogaeth.
[AR yn cyrraedd]
Dywedodd AR y gellir trafod y tir o gwmpas y cae bob tywydd gyda'i adroddiad ef.

Dywedodd MGD fod y fan dal wedi ei pharcio ar waelod allt Pandy. Atebodd AR nad oedd hi yno pan aeth o gwmpas yr ardal gydag Emyr yr wythnos diwethaf a gan fod trwydded a *MOT* arni yna nid oes dim y gall y Cyngor Sir ei wneud. Ychwanegodd CR fod Gwenda Vaughan wedi derbyn llythyr gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r mater ac atebodd AR gan egluro gan ei fod wedi ei barcio ar dir preifat yna dylid cysylltu gyda'r *PCSO* lleol. Penderfynwyd i CWG wneud hyn gan ddweud wrth yr heddlu fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn cwyn gan berchennog y tir a CWG i gysylltu yn ôl gyda Gwenda Vaughan hefyd.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais Rhif 0/52282 Dolwen Fawr, Llangernyw LL22 8RN
Pawb yn cymeradwyo.

**5.2** Cais Rhif 0/52283 Pen Y Ffridd, Llangernyw LL22 8RH
Pawb yn cymeradwyo'r cais cyn belled nad oes datblygiad arall yn digwydd wedi hyn.

**5.3** Cais Rhif 0/52300 Brynffynnon Pentre, Glan Gors, Llangernyw, LL22 8RG
Pawb yn cymeradwyo.

**5.4** Cais Rhif 0/52309 Foel Fawr, Llanrwst LL26 0NT
Pawb yn cymeradwyo.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Anfoneb eithriadol – CWG wedi derbyn fwy o fanylion ynglŷn â pham fod cost yr anfoneb yn

uwch na'r arferol a bydd yn ei yrru ymlaen i bawb a'i drafod yn y pwyllgor nesaf.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Buodd o gwmpas yr ardal yn ddiweddar gydag Emyr Jones o'r adran ffyrdd. Mae problem dwr yn Nhy'n Ffynnon ac maent am roi *jetter* yno.

**7.2** Fan ym Mhandy Tudur – nid oedd yno pan aeth o gwmpas ac mae'n gyfreithlon felly nid oes dim y gall y cyngor ei wneud.

**7.3** Tai Pella – maent eisiau gwneud mynediad arall. Nid yw'n debygol y byddent angen caniatâd cynllunio ond bydd angen mynd drwy'r adran rheolaeth adeiladu. Mae wedi eu cynghori i fynd ar y wefan i gael arweiniad am ba fath o giât y gellir ei gosod yno. Gofynnodd DR os byddent yn gorfod codi gwrych gan y bydd yn adeg nythu? Atebodd AR y bydd y wefan yn dweud beth yw'r rheolau o ran hynny ac fe all AR eu hatgoffa.

**7.4** Ty'n Bryn – Fe wnaeth AR alw yno ond doedd neb gartref. Mae'r cyngor am roi *jetter* yno ond mae'r broblem yn fwy na hynny a bydd yn trefnu i gwrdd EW eto.

**7.5** Petryal – Mae Emyr yn dweud fod y broblem wedi ei datrys.

**7.6** Llwybr Bont Faen – mae'n awr ar agor.

**7.7** Siop Fach - AR wedi cysylltu gyda'r adran rheolaeth adeiladu ynglŷn â'r mater ond nid ydyn nhw wedi dod yn ôl ato eto.

**7.8** Draens wrth y *Stag* a'r Eglwys – mae'r Cyngor Sir am eu glanhau.

**7.9** Llwybr heibio'r *Bridge* – bydd hwn ar gau am fisoedd gan fod llawer o waith a chost iddo. Gofynnodd DR beth yw lled llwybr cerdded i fod? Atebodd AR nad oedd yn siŵr ond fe all wneud ymholiadau. Dywedodd JR fod y ffens sydd wedi ei osod wrth y *Bridge* wedi mynd i mewn i'r llwybr cerdded. Dywedodd AR fod yn rhaid i'r cyngor ei gau gan eu bod wedi cael cwyn ynglŷn ag iechyd a diogelwch a bydd yn siarad gyda Gwynfor Sŵn y Nant i drafod y mater.

**7.10** Hwmp wrth y *Lead Inn* – Mae Emyr yn meddwl bod draen wedi dymchwel yno. Mae'n ymwybodol ohono ond nid oes arian i'w atgyweirio.

**7.11** Tir o gwmpas y cae bob tywydd – Mae AR wedi peidio symud ymlaen gyda hyn er mwyn aros am y papurau gan DR. Dywedodd fod y cyngor angen cael gwybod ydi'r Cyngor Cymuned yn bwriadu mynd ymlaen i wneud rhywbeth gyda'r tir ai pheidio. Ychwanegodd ei fod yn credu fod ychydig o dai yn iawn ond ddim arno i gyd. Yn y gorffennol daeth JR i fyny gyda'r syniad o lawnt fowlio y byddai angen ei ariannu ond dywedodd AR efallai y byddai'n bosib cael grant chwaraeon ar ei gyfer. Gofynnodd AR i'r Cyngor Cymuned benderfynu ar ddyddiad i gynnal cyfarfod cyhoeddus a gofyn i'r gymuned yn union beth maen nhw eisiau yno. Ychwanegodd MGD os yw'r dogfennau wedi dod i law ai pheidio yna mae angen sgwrs gyda'r gymuned i weld beth yn union y maent eisiau.

Bydd AR yn dweud wrth y Cyngor Sir bod cyfarfod am ddigwydd. Gofynnodd MGD am fynediad i'r safle drwy dir yr ysgol ac os oes angen rhyw fath o fewnbwn gan yr Adran Briffyrdd ynglŷn â mynediad i'r cae ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd? Atebodd AR fod yr Adran Briffyrdd dim ond eisiau cael rhestr o syniadau beth mae trigolion Llangernyw eisiau ei weld ar y funud. Ychwanegodd hefyd efallai y byddai'r clwb pêl droed yn hoffi lle ar gyfer ystafelloedd newid newydd.

Dywedodd JR ei bod yn ofynnol i ohebu pob tŷ i hysbysebu'r cyfarfod agored a chytunwyd y dylid ei roi ar y wefan, *facebook*, posteri (gan gynnwys yn y siopa ac mewn capeli) a chynhyrchu taflenni bach i roi drwy ddrysau tai. Penderfynwyd i CWG a DR drafod dyddiad addas ar gyfer cyfarfod agored, i CWG gynhyrchu holiadur electronig drwy *Google Forms*, a rhoddwyd dyddiad cau i gyflwyno'r papurau gan DR o 12 o'r gloch ar Chwefror 28ain.

**7.12** Dywedodd AR os yw cynghorydd yn gwybod am unrhyw ffordd sydd angen ei ail-wynebu, yna dylid eu hanfon at CWG erbyn nos Lun ac yna CWG i goladu'r wybodaeth a'i anfon i AR. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor Sir wedi cael arian grant i atgyweirio ffyrdd gwledig ac felly mae angen i AR roi rhestr iddynt. Dywedodd fod y gyffordd wrth ymyl Hendre Ddu ar y rhestr a hefyd o'r *Lion* i fyny at gyffordd Llwyn Saint. Dywedodd DR bod patsio wedi digwydd wrth ymyl Ty'n Caeau ond ei fod wedi mynd ychydig. Atebodd AR ei bod yn debyg y gwnawn nhw batsio ychydig ar y ffordd o Langernyw am Llanfair ond nad yw'n debygol y gwnawn nhw ail-wynebu'r darn cyfan.

Gofynnodd JH os yw'n bosib atgyweirio'r darn ar yr A548 ble mae damwain wedi bod o'r blaen ac atebodd AR y bydd y cyngor yn edrych ar y ffyrdd 'A' ond eu bod eisiau barn am ffyrdd gwledig yn fwy na dim. Ychwanegodd ST y dylai'r ffordd Plas yn Blaenau a Singrig fod ar y rhestr ac roedd pawb yn cytuno.

Gofynnodd DR a oedd angen caniatâd cynllunio i'r sied fawr wrth ymyl Haul a Gwynt. Dywedodd AR fod yn bosib rhoi sied newydd ar safle hen sied ond mae'n syniad tynnu lluniau i ddangos ei bod yno'n barod. Hefyd, gofynnodd a oeddynt wedi cael caniatâd i ddymchwel yr-Hen Ficerdy ym Mhandy Tudur. Atebodd AR ei fod wedi ymddangos ar y rhestr orfodaeth wythnosol a'i fod wedi ei ddymchwel heb ganiatâd a bod y cyngor wedi rhoi gorchymyn arno i gael ei glirio.

Dywedodd AV fod y cerrig ar ben y Bont Faen wedi cael eu taro ac atebodd AR ei fod wedi adrodd amdano. Ychwanegodd MGD fod llawer o draffig yn dod i fyny o'r ficerdy a drwy dop Pandy gan gynnwys faniau mawr sydd yn rhy fawr i fynd drwy ffordd yno. Dywedodd AR y byddai'n gofyn i'r cyngor roi arwyddion 'Anaddas i nwyddau trwm' i fyny.

**MATERION ARIANNOL**
**8.1** Siec gan Gofgolofnau'r Dyffryn am gostau claddu.

## 8 GOHEBIAETH
Wedi eu gyrru ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.1** Gwybodaeth am gyfarfod cyffredinol blynyddol Un Llais ar Fawrth 11 rhwng 4 a 6
**9.2** Gwybodaeth am gweminar argyfwng costau byw gan Un Llais
**9.3** Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru
**9.4** Dyddiadau hyfforddiant Chwefror a Mawrth Un Llais
**9.5** Holiadur Canolfan Groeso Betws-y-coed
**9.6** Diweddariad ynglŷn â'r siop fach
**9.7** Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025
**9.8** Awdit 2023-24 – CWG wedi derbyn e-bost yn gofyn am fwy o waith papur. Mae CWG wedi gallu gyrru rhai dogfennaeth iddo ond angen help gyda'r rhai ers y cyfnod cyn penodi Clerc. Diolchwyd i'r Cynghorwyr am eu cymorth gyda hyn.
**9.9** E-bost gan Mark Drakeford yn cydnabod derbyn yr e-bost gan y Cyngor Cymuned.

## 9 BILIAU
**9.1** Bil cyfieithu Enlli - £95
Pawb yn cytuno i dalu.

**10 MATERION LLEOL**

**DR** Gofynnodd am gael rhoi arwyddion 20 m.y.a. o Siop Llan i gyfeiriad yr ysgol gan fod llawer o bobl yn cwyno am y goryrru.

**AV** Dywedodd fod y Clwb Garddio wedi cyfarfod eto a rhannodd daflen gyda'r derbyniadau a thaliadau hyd yma. Pwysleisiodd JR mai'r bwriad yw harddu'r ardal ac ychwanegodd DR ei bod yn wythnos bocsys nythu adar yr wythnos nesaf. Rhannodd AV bosteri gan 'Cymru Gynnes' a gofynnwyd i CWG ei rhoi ar yr hysbysfyrddau a gofyn am rhai electronig i'w rhoi ar y wefan ac ar *facebook*.

**11 CYFARFOD NESAF**

Mawrth 26ain 2025 yng Ngwytherin.
Cyfarfod yn dod i ben am 21:20.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.